The Copyright Licensing Agency

Nodiadau Esboniadol

Trwydded Ysgolion

Y Drwydded yn weithredol o 1 Ebrill 2008

Cynllun trwyddedu'r CLA – cwmpas sganio

Yn ogystal â'r cwmpas llungopïo sy'n bodoli, mae'r Drwydded hollgynhwysol newydd yn rhoi'r hawl i sganio ac ailddeipio o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau. Ar hyn o bryd, mae'r hawl i sganio ac ailddeipio wedi'i gyfyngu i weithiau a gyhoeddwyd yn y DU ac UDA ond y gobaith yw y bydd hyn yn ehangu.

Perchnogaeth o'r cyhoeddiad gwreiddiol

Rhaid gwneud y copïau o'r argraffiad papur gwreiddiol o'r cyhoeddiad y mae eich ysgol yn berchen arno. Gellir gwneud copïau eraill hefyd o'r copïau hyn. Mae Trwydded y CLA yn rhoi'r hawl i wneud copïau o gopïau hawlfraint y talwyd amdanynt ac a gyflenwyd gan gyrff megis y Llyfrgell Brydeinig, yn ogystal â chopïau a gyflenwyd gan wasanaethau toriadau'r wasg y CLA.

Ni ddylid gwneud copïau yn lle prynu cyhoeddiad neu gomisiynu gwaith artistig. Er enghraifft, os ydych chi'n cynhyrchu adnodd dysgu, ni ddylech chi ddefnyddio ffotograff wedi'i sganio pe baech chi fel arall wedi comisiynu ffotograffydd i dynnu llun newydd.

Hawlfraint mewn gwaith a gyhoeddwyd

Mae cyhoeddiadau sy'n dod o dan Drwydded y CLA yn debygol o fod wedi'u gwarchod gan fwy nag un hawlfraint. Mae hawlfraint awdur, artist neu ffotograffydd yn para am 70 o flynyddoedd o ddiwedd blwyddyn eu marwolaeth. Mae hawlfraint y cyhoeddwr yn y trefniant argraffyddol yn para am 25 o flynyddoedd ar ôl diwedd y flwyddyn y cyhoeddwyd yr argraffiad ynddi gyntaf.

Mae'n rhaid ystyried pob hawlfraint ar bob achlysur. Os yw hawlfraint argraffyddol y cyhoeddwr wedi dod i ben (h.y. os yw'r argraffiad dros 25 mlwydd oed), gallai hawlfraint yr awdur, yr artist neu'r ffotograffydd fod yn weithredol o hyd. Yn yr un modd, bydd argraffiad newydd (sy'n defnyddio trefniant argraffyddol newydd) o waith llenyddol lle mae hawlfraint yr awdur wedi dod i ben yn dal wedi'i warchod gan hawlfraint 25 mlynedd y cyhoeddwr.

Felly os yw gwaith 'allan o brint' nid yw o reidrwydd yn dilyn ei fod 'allan o hawlfraint'.

Cwmpas y drwydded

Gellir gwneud cynifer o gopïau ag sydd eu hangen i bob pwrpas penodol, ond ni chaniateir gwneud mwy na'r nifer sydd ei angen i sicrhau fod pob aelod o'r dosbarth, a'r athro, yn gallu cael copi, ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

- A un bennod gyflawn o lyfr
- un erthygl o gyfnodolyn neu gylchgrawn
- un stori fer neu gerdd nad yw dros 10 tudalen o hyd o antholeg
- yn achos adroddiad a gyhoeddwyd o drafodion barnwrol, adroddiad cyflawn un achos
- neu 5% o'r cyhoeddiad, os yw'n fwy na'r uchod

Copïau Papur (gan gynnwys copïo ar asetad)

Caiff staff yr Ysgol wneud neu awdurdodi copïau papur i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, athrawon, aelodau eraill o staff a llywodraethwyr o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau a gyhoeddwyd yn y DU a nifer o wledydd eraill (gweler y rhestr isod).

Copïau Digidol – Sganio/Ailddeipio

Caiff staff yr Ysgol wneud neu awdurdodi copïau papur i'w dosbarthu i'r disgyblion, rhieni, athrawon, aelodau eraill o staff a llywodraethwyr hynny y caniateir iddynt gael mynediad at rwydwaith diogel yr ysgol, drwy sganio ac ailddeipio detholiadau o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau a gyhoeddwyd yn y DU ac UDA yn unig. Caniateir defnyddio Copïau Digidol trwyddedig gyda Byrddau Gwyn Digidol, Amgylcheddau Dysgu Rhithwir a meddalwedd cyflwyno (e.e. PowerPoint™) hefyd

Gellir ffacsio neu ebostio copïau hefyd o dan y ddarpariaeth hon.

Rhaid i bob copi gael ei wneud o gyhoeddiad gwreiddiol bob tro. Ni chaniateir unrhyw gopïo systematig neu fynych o'r un deunydd a fyddai'n torri'r cyfyngiadau uchod yn ystod unrhyw gwrs astudio/modiwl, h.y. copïo mwy na'r cyfyngiadau uchod **yn gynyddol ar** gyfer yr un dosbarth o ddisgyblion. Gellir gwerthu copïau trwyddedig i ddisgyblion ar gost fydd yn ad-dalu'r costau cynhyrchu yn unig, ac nid er mwyn gwneud elw.

Defnydd o rwydweithiau diogel

Mae'r Drwydded yn awdurdodi defnyddio MLE, VLE, llwyfannau dysgu, mewnrwydi ysgol neu rwydweithiau digidol tebyg, cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â diffiniad y Drwydded o Rwydwaith Diogel. Mae'r diffiniad yn cynnwys mynediad diogel wedi'i warchod â chyfrinair at rwydwaith digidol, lle bynnag y bo'r defnyddiwr sy'n mewngofnodi. Mae hyn yn golygu bod disgyblion (a staff) sy'n defnyddio dulliau astudio a chyflenwi dosbarthedig, o bell, electronig a dysgu cyfunol yn gallu cael mynediad at ddeunydd hawlfraint a sganiwyd gan yr ysgol ac a storiwyd ar Rwydwaith Diogel.

Ydy'r Drwydded yn cwmpasu copïau a wneir oddi ar safle'r ysgol?

Ydy. Mae'n cwmpasu copïau a wneir i bwrpasau addysgol a mewnol eich ysgol, lle bynnag maen nhw'n cael eu gwneud. Er enghraifft, gyda sganio, mae'n bosibl fod gan staff sy'n gweithio gartref sganiwr a chyswllt â'r rhyngrwyd a gallant ebostio copi o erthygl i gydweithwyr neu ddisgyblion cyhyd â bod defnydd o'r fath yn cael ei wneud dros Rwydwaith Diogel. Fodd bynnag, dim ond o ddeunydd a gyhoeddwyd sy'n eiddo i'r ysgol y gellir gwneud copïau. Nid yw'r Drwydded yn caniatáu rhannu Copïau Trwyddedig y tu allan i'r ysgol drwyddedig.

Storio copïau

Gellir storio Copïau Papur a wneir ym mhob Blwyddyn Trwydded a'u defnyddio drwy'r flwyddyn honno a gweddill unrhyw Flwyddyn Academaidd, ond yna rhaid eu dinistrio.

Gellir storio copïau Digidol ar weinyddwr a/neu eu mynegeio'n systematig yn unig i bwrpas, ac am gyfnod y dosbarth, gwers neu gwrs astudio y gwnaed y Copïau Digidol ar ei gyfer, ond ym mhob achos rhaid eu dinistrio ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd y gwnaed y copi ynddi.

Ni chaniateir storio Copïau Digidol ar weinyddwr, na'u mynegeio'n systematig gyda'r bwriad o greu llyfrgell electronig neu adnodd gwybodaeth addysgol tebyg o ddetholiadau o Ddeunydd Trwyddedig.

Mae'n bwysig nad yw ysgolion yn defnyddio trwydded y CLA yn uniongyrchol i gystadlu â gwerthiant sylfaenol cyhoeddiadau digidol.

Pecynnau cwrs

Gellir gwneud copïau i'w cynnwys mewn pecynnau cwrs/astudio/ cymorth dysgwr dan y Drwydded cyhyd â bod y terfynau a amlinellir uchod yn cael eu cadw ac nad yw hyn yn cael ei wneud yn lle prynu gwerslyfr cwrs.

Copïo mwy o faint ar gyfer disgyblion a staff â nam ar eu golwg/anabl

Gellir gwneud copïau mwy o faint o hyd at lyfr neu gyfnodolyn cyfan i'w defnyddio gan staff neu ddisgyblion â nam ar eu golwg/anabl cyhyd â bod dim fformat print bras addas o'r argraffiad a gaiff ei gopïo ar gael.

Gweithiau artistig

Mae ffotograffau, darluniau, diagramau etc mewn argraffiadau a gyhoeddwyd wedi'u cynnwys yn y Drwydded. Fodd bynnag, nid yw lluniau llonydd, hysbysebion, logos a nodau masnach wedi'u cynnwys. Ymhellach, nid yw'r Drwydded yn caniatáu cynhyrchu sleidiau. Gellir cael trwydded sy'n caniatáu hyn oddi wrth y Gymdeithas Hawlfraint Dylunio ac Artistiaid (DACS – gweler www.dacs.co.uk).

Cyhoeddiadau o du allan i'r DU

Mae gan CLA drefniadau cilyddol gyda'r Ariannin, Awstralia, Awstria, Gwlad Belg, Canada (gan gynnwys Cwebéc), Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, yr Eidal, Jamaica, Lwcsembwrg, Mecsico, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Norwy, Singapore, De Affrica, Sbaen, Sweden, y Swistir, Taiwan Trinidad & Tobago ac UDA. Gellir llungopïo cyhoeddiadau o'r gwledydd hyn dan drwydded o fewn y cyfyngiadau uchod. Fodd bynnag ar hyn o bryd, dim ond gweithiau a gyhoeddwyd yn y DU ac UDA y gellir eu defnyddio i greu Copïau Digidol, ond y gobaith yw y bydd y cwmpas hwn yn ehangu.

Yr hyn nad yw'r drwydded yn ei gwmpasu

Nid yw'r drwydded yn cwmpasu unrhyw rai o'r eitemau a gynhwysir ar y Rhestr o Gategorïau a Gweithiau sydd wedi'u Heithrio. Mae'r rhestr hon i'w gweld ar wefan CLA a chaiff ei diweddaru o dro i dro. Dylid arddangos copi o'r rhestr wrth ymyl pob peiriant copïo yn eich ysgol. Fodd bynnag, er hwylustod, ceir rhestr o'r eithriadau sydd yn arbennig o berthnasol i Drwydded yr Ysgolion isod:

Categorïau sydd wedi'u Heithrio

- **Cerddoriaeth wedi'i hargraffu (gan gynnwys y geiriau).**
  Dylech ymgynghori â Chod Arfer Teg y Gymdeithas Cyhoeddwyr Cerddoriaeth.
- **Emynau.**
  Mae Trwyddedu Hawlfraint Gristnogol Ryngwladol yn trwyddedu atgynhyrchu emynau sydd â'r geiriau yn dal i fod mewn hawlfraint.
- **Papurau newydd**
  Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Papurau Newydd yn trwyddedu copïo o nifer o bapurau newydd y DU. Fel arall, dylid cysylltu â phapurau newydd i gael caniatâd.

- **Mapiau, siartiau, neu lyfrau tablau**
  Mae gan yr Arolwg Ordnans gynllun trwyddedu a gall staff gopïo dan delerau'r Drwydded honno os oes trwydded o'r fath gan yr ysgol
- **Llyfrau gwaith, cardiau gwaith neu daflenni aseiniad**
  Diffinnir fel cyhoeddiadau a fwriedir fel rhai i'r disgybl ysgrifennu arnynt ac ar gyfer un defnydd yn unig**.**
- **Deunydd addysgu a baratowyd yn breifat**
- **Rhai cyrsiau gohebol**
  Yn gyffredinol, nid yw'r rhain yn weithiau sydd wedi'u cyhoeddi ac felly maen nhw y tu allan i gwmpas Trwydded y CLA. Fodd bynnag, gellir copïo cyrsiau a gyhoeddwyd gan y Brifysgol Agored a'r Ysgol Estyn Genedlaethol dan y Drwydded.
- **Cyfnodolion diwydiannol mewnol**
  Yn cynnwys cylchlythyrau mewnol cwmnïau etc
- **Cyhoeddiadau sy'n cynnwys rhybudd penodol nad ydynt i'w copïo dan drwydded CLA**
  e.e. JIIG-CAL, llyfrynnau Gyrfaoedd Cyfrifiadurol, llyfrau 'Which?'.
- **Papurau arholiad a gyhoeddwyd a phrofion a gyhoeddwyd**
  Dylid gofyn am ganiatâd oddi wrth fyrddau arholi a chyhoeddwyr papurau profion cyn copïo.
- **Cyhoeddiadau â 'Chaniatâd Copïo'**
  Caiff y rhain eu gwerthu naill ai â thrwydded oddi wrth y cyhoeddwr neu awdurdod ar y deunydd gwreiddiol ar gyfer copïo. Mae'r nifer o gopïau y gellir eu gwneud fel arfer wedi'i nodi ar y gwaith**.**

Gweithiau sydd wedi'u Heithrio

- **Dogfennau meddalwedd, nodiadau athro, pamffledi disgyblion etc y BBC. (**D.S. mae cylchgronau a chyfnodolion y BBC yn dod dan y Drwydded)
- **Encyclopedia Britannica** – pob cyhoeddiad
- **Berlitz** – pob cyhoeddiad
- **Yr holl weithiau a gyhoeddwyd gan rai cyhoeddwyr UDA**
- Holl weithiau **Dylan Thomas**
- Holl weithiau **J.D Salinger**

Os ydych chi'n dymuno copïo o unrhyw rai o'r cyhoeddiadau ar y Rhestr o Gategorïau sydd wedi'u Heithrio a Gweithiau sydd wedi'u Heithrio, neu gopïo mwy na'r terfynau a bennwyd, rhaid i chi gysylltu â deiliad yr hawlfraint (cyhoeddwr, awdur neu artist) am ganiatâd o flaen llaw**.**

Ydy trwydded y CLA yn cwmpasu adnoddau e-ddysgu?

Nac ydy. Nid yw'r Drwydded yn cwmpasu unrhyw beth sy'n wreiddiol mewn fformat digidol, er enghraifft pecynnau CD-ROM neu DVD (gan gynnwys y rheini sy'n cyd-fynd â gwerslyfrau), e-lyfrau, cyfnodolion ar-lein ac adnoddau dysgu digidol eraill ac fel arfer byddant ar gael ar eu telerau ac amodau trwyddedu eu hunain. Mae'r eithriad hwn hefyd yn gymwys i weithiau a gyhoeddwyd ar CD-ROM neu ar y Rhyngrwyd.

Fodd bynnag gellir argraffu copïau a gyflenwyd yn ddigidol gan ganolwr sydd wedi cyflenwi'r copi hwnnw i'r ysgol dan drwydded CLA (asiantaeth toriadau papur newydd neu'r Llyfrgell Brydeinig, er enghraifft) ar bapur a gellir trin y copïau papur hynny fel Copïau Trwyddedig dan y Drwydded.

Cyfyngiadau ar y defnydd o Gopïau Digidol

Ni chaniateir golygu Copïau Digidol na'u trin na'u haddasu mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag caniateir i staff farcio copïau (e.e. drwy amlygu neu danlinellu) er mwyn ychwanegu pwyslais i ddetholiad a gopïwyd. Rhaid atgynhyrchu detholiadau sydd wedi'u haildeipio gair am air, gan gynnwys yr holl atalnodi. Ni chaniateir defnyddio meddalwedd adnabod nodau'n optegol (OCR) dan y Drwydded. Ni chaniateir gosod na chysylltu'r copïau â'r Rhyngrwyd neu'r we fyd eang, oni bai bod hynny'n cael ei wneud fel rhan o Rwydwaith Diogel.

Cofnodi'r hyn sy'n cael ei gopïo

Mae'n un o ofynion y Drwydded fod Deiliad y Drwydded yn cydymffurfio â Chanllawiau Ysgolion y CLA ar gyfer adrodd data a methodoleg arolygu. Rhoddir gwybodaeth o flaen llaw i Ddeiliaid Trwyddedau sy'n cynnwys manylion gofynion cofnodi'r copïau a wneir ac adrodd am gopïau a ddefnyddir dan y Drwydded. Rhaid nodi manylion llyfryddol y ffynhonnell megis awdur/artist, teitl, cyhoeddwr ac ISBN / ISSN ar bob Copi Digidol trwyddedig. Lle bo'n bosibl, mae'n arfer da gwneud hynny ar bob copi papur sy'n cynnwys detholiadau. Dylai staff sy'n cynhyrchu adnoddau drwy ddefnyddio 'torri a gludo' mwy nag un detholiad ddynodi ffynhonnell pob detholiad yn y dull uchod ar waelod pob tudalen. Os nad yw copi sydd wedi'i sganio neu ei ailddeipio eisoes yn cynnwys manylion y ffynhonnell, dylid atodi taflen neu dudalen eglurhaol yn cynnwys y manylion llyfryddol. Mae angen gwybodaeth o'r fath ar CLA er mwyn dosbarthu'r ffi trwydded i'r awduron, yr artistiaid, a'r cyhoeddwyr hynny y mae eu gweithiau wedi'u copïo.

Bwriedir y daflen hon fel canllaw i'r cwestiynau mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r Drwydded CLA. Os nad ydych chi'n siŵr ynglŷn â'r hyn y caniateir neu na chaniateir i chi ei gopïo dan y Drwydded dylech ffonio Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CLA (Ffôn: 020 7400 3124) am arweiniad. Cewch lungopïo'r daflen hon am ddim heb geisio caniatâd gan y CLA. Gellir cael copïau ychwanegol o'r ddogfen hon a'r holl Ddogfennau Cymorth i Ysgolion ar wefan CLA.

Bwriedir y ddogfen hon fel canllaw yn unig. Noder nad yw'n cymryd lle telerau ac amodau'r Drwydded; pe bai anghydfod yn codi rhwng y ddau, y Drwydded fyddai'r awdurdod terfynol.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf (CLA)

Prif Swyddfa
Saffron House, 6-10 Kirby Street, Llundain EC1N 8TS
Ffôn 020 7400 3100 Ffacs 020 7400 3101 Ebost cla@cla.co.uk www.cla.co.uk

CLA yn yr Alban
CBC House, 24 Canning Street, Caeredin, EH3 8EG
Ffôn 0131 272 2711 Ffacs 0131 272 2811 Ebost clascotland@co.uk